

Centre of
expertise
on child
sexual abuse

Cam-drin plant yn rhywiol yn 2021/22: Tueddiadau mewn data swyddogol

Crynodeb gweithredol

Kairika Karnsa a
Paige Bromley

Chwefror 2023



Ynglŷn â'r awduron

Mae Kairika Karsna yn uwch swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh). Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr.

Mae Paige Bromley yn swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan CPRh ac mae hi ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer ei PhD sy'n ystyried effaith COVID-19 ar wasanaethau cam-drin domestig yng nghefn gwlad.

Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- ▶ cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- ▶ sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- ▶ galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- ▶ cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- ▶ mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- ▶ darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ▶ ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn

www.csacentre.org.uk

Crynodeb gweithredol

Mae deall graddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yn hanfodol i wella ymatebion iddo. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres y Ganolfan CPRh o gyhoeddiadau sy'n rhoi tystiolaeth a dadansoddiadau cyfoes ar raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr i weithwyr proffesiynol a llunwyr polisi. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar achosion a gofnodwyd o gam-drin plant yn rhywiol yr oedd gweithwyr proffesiynol wedi'u canfod ac wedi ymateb iddynt yn 2021/22, gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael o'r data swyddogol a ryddhawyd gan asiantaethau amddiffyn plant, cyfiawnder troseddol ac iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n bwysig cydnabod bod data asiantaethau'n ymdrin â lleiafrif bychan yn unig o'r achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd yn ein cymdeithas. Rydym yn amcangyfrif bod o leiaf un o bob 10 plentyn yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cam-drin yn rhywiol cyn eu bod yn 16 oed; mae nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu cofnodi yn nata swyddogol asiantaethau ac sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad hwn yn llawer is na'r amcangyfrif hwn o'r raddfa. (Am y dystiolaeth ddiweddaraf am nifer yr achosion, gweler ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn 2021 *Graddfa a Natur y Cam-drin Plant yn Rhywiol: Adolygu'r Dystiolaeth yn www.csacentre.org.uk/documents/scale-nature-review-evidence-0621-welsh/*.)

Er hynny, mae data asiantaethau'n adnodd gwerthfawr, a hynny am eu bod yn cael eu casglu'n unol â diffiniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol: mae hyn yn golygu bod modd monitro sut mae achosion o gam-drin plant yn cael eu canfod a sut yr ymateb iddynt wedi newid dros amser, a beth yw'r gwahaniaethau rhwng gwahanol awdurdodau lleol, heddluoedd a chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol.

Data amddiffyn plant yn 2021/22

Yn ystod y flwyddyn, cofnododd gwasanaethau plant awdurdodau lleol bryderon am gam-drin plant yn rhywiol mewn 33,990 o asesiadau plant; roedd hyn yn gynydd o 15% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (sy'n cyferbynnu â chynnydd o ddim ond 3% yng nghyfanswm nifer yr asesiadau), ac mae'n dangos y lefel uchaf o bryderon am gam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd ers 2014/15 pan ddechreuwyd casglu'r wybodaeth hon. Roedd dau o bob pump o'r asesiadau hyn yn ymwneud â cham-drin rhywiol gan blentyn. Cafodd pryderon am gamfanteisio'n rhywiol ar blant (er ei fod yn fath o gam-drin plant yn rhywiol, mae'n cael ei drin yn wahanol mewn asesiadau o'r fath), ei gofnodi mewn 16,330 o asesiadau, sy'n parhau â'r gostyngiad araf ond cyson dros y pedair blynedd diwethaf. Gyda'i gilydd, roedd un o bob 10 o asesiadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yn Lloegr wedi cofnodi pryder am ryw fath o gam-drin plant yn rhywiol. Er nad yw'r data hyn ar gael yng Nghymru, dangosodd gwybodaeth am gamfanteisio i awdurdodau lleol Cymru fod 932 wedi'u cofnodi fel bod mewn perygl o gamfanteisio rhywiol yn 2021/22, sy'n ychydig yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol.

Yn 2021/22, cofnododd un o bob 10 asesiad plant a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yn Lloegr bryder am ryw fath o gam-drin rhywiol.

Er nad oes dim tystiolaeth i awgrymu bod gwahaniaeth sylweddol rhwng niferoedd yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol rhwng gwahanol ranbarthau Cymru a Lloegr, roedd awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr wrth gofnodi pryderon am gam-drin plant yn rhywiol yn yr asesiadau hyn. Mae hyn yn awgrymu bod plant yn cael ymateb gwahanol i'w camdriniaeth rywiol sy'n seiliedig ar ble maent yn byw. Er nad oedd pum awdurdod lleol wedi cofnodi dim pryderon am gam-drin plant yn rhywiol drwy gydol y flwyddyn, roedd saith awdurdod lleol wedi cofnodi pryderon o'r fath am fwy na 70 o blant am bob 10,000 plentyn sy'n byw yn yr ardal. Roedd y cyfraddau cofnodi uchaf yn rhanbarthau Gogledd Ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog a'r Humber, ac roedd tueddiad i awdurdodau lleol yn Llundain a Dwyrain Lloegr ddangos cyfraddau is.

Roedd llai o wahaniaethau lleol a rhanbarthol o ran cofnodi pryderon am gamfanteisio ar blant yn rhywiol mewn asesiadau, sy'n awgrymu dull mwy cyson a all fod o ganlyniad i lefel yr adnoddau, yr hyfforddiant a'r flaenoriaeth a roddwyd i gamfanteisio ar blant yn rhywiol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Er nad oes gwybodaeth gyffredinol ar gael yn gyhoeddus ar y camau a gymerwyd yn dilyn asesiadau o'r fath, mae data'n cael eu cyhoeddi ar y rhesymau sylfaenol dros roi plant ar gynlluniau amddiffyn plant yn Lloegr, neu ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru. Mae'n dangos bod 2,520 o blant yn Lloegr – sy'n cyfateb i un o bob 20 o'r rhai hynny yr oedd eu hasesiadau cychwynnol wedi cofnodi pryderon am gam-drin neu gamfanteisio ar blant yn rhywiol – wedi'u rhoi ar gynlluniau amddiffyn plant o dan y prif gategori o gam-drin rhywiol (sy'n cynnwys camfanteisio ar blant yn rhywiol) yn 2021/22. Fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd hyn yn cynrychioli 4% yn unig o gyfanswm nifer y plant a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn plant. Yng Nghymru, cafodd 127 o blant eu cofrestru o dan brif gategori cam-drin rhywiol, a chafodd 63 arall eu cofrestru am resymau niferus gan gynnwys cam-drin rhywiol. Er bod cynnydd bychan (3%) yn Lloegr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn nifer y plant a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn plant oherwydd cam-drin rhywiol, yng Nghymru gwelwyd gostyngiad o 14% yn nifer y plant a roddwyd ar gofrestrau amddiffyn plant.

Mae proffil demograffig plant ar gynlluniau amddiffyn plant neu a roddwyd ar y gofrestr o ganlyniad i bryderon am gam-drin rhywiol, yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Roedd y plant hyn yn fenywaidd yn bennaf, ac yn dueddol o fod yn hŷn na rhai a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn plant am resymau eraill. Yn Lloegr, o'i gymharu â phoblogaeth y plant a oedd yn mynd i ysgolion y wladwriaeth a meithrinfeydd, roeddent yn llai tebygol o fod o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig cymysg; ni chafodd data ethnigwydd eu cyhoeddi yng Nghymru.

Fel yn achos cofnodi pryderon am gam-drin rhywiol mewn asesiadau plant, roedd amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran nifer y plant a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn neu'r gofrestr amddiffyn plant. Roedd saith awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr nad oedd wedi rhoi dim plant ar gynlluniau amddiffyn na'r gofrestr o ganlyniad o bryderon am gam-drin rhywiol. Gwelwyd y cyfraddau isaf ar y cyfan yn Nwyrain Lloegr a Llundain, gydag awdurdodau lleol yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog a'r Humber yn dueddol o fod â'r cyfraddau uchaf. Roedd cyfraddau yng Nghymru'n debyg i'r rhai yn Lloegr.



Rhoddyd 2,520 o blant ar gynlluniau amddiffyn plant o dan gategori cam-drin rhywiol – 4% yn unig o gyfanswm nifer y cynlluniau amddiffyn plant.



Troseddau rhywiol yn erbyn plant a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2021/22

Cofnododd heddluoedd yng Nghymru a Lloegr 103,055 o droseddau o gam-drin plant yn rhywiol yn ystod y flwyddyn, 15% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Dyma'r tro cyntaf i'r ffigwr hwn fod yn fwy na 100,000. Roedd traean o'r troseddau hyn yn cynnwys delweddau o gam-drin plant yn rhywiol, roedd traean arall yn ymwneud â thrais neu ymosodiad rhywiol ar blentyn, ac roedd y gweddill yn ymwneud â cham-drin drwy gamfanteisio rhywiol, paratoi i bwrpas rhyw â phlentyn. O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gwelwyd cynnydd arbennig o fawr yn nifer yr achosion o drais ac ymosodiadau rhywiol a gofnodwyd, gyda chynnydd o fwy na chwarter ym mhob un.

Roedd gwahaniaeth triphlyg yng nghyfradd y troseddau cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd o'i gymharu â maint eu poblogaeth plant. Roedd cyfraddau'n dueddol o fod yn is yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr, ond yng Nghymru, Gogledd Orllewin Lloegr, Swydd Efrog a'r Humber gwelwyd cyfraddau a oedd yn uwch na'r cyfartaledd.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 94,646 o ymchwiliadau gan yr heddlu i droseddau cam-drin plant yn rhywiol; cafodd rhai dan amheuaeth eu gwysio neu eu cyhuddo mewn 10,232 (11%) o'r achosion hyn, a daethpwyd â 4% o achosion i ben gyda rhybuddiad neu 'weithgarwch dargyfeiriol neu ymyrraeth'. Roedd nifer y rhai dan amheuaeth a gyhuddwyd/gwyswyd, yn ogystal â chyfran yr ymchwiliadau a ddaeth i ben gyda chyhuddiad/gwŷs, ychydig yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Daethpwyd â bron i ddau draean yr ymchwiliadau i ben oherwydd anawsterau tystiolaethol o ryw fath, fel yn 2020/21. Roedd cyhuddiadau'n fwy tebygol am droseddau camfanteisio'n rhywiol a pharatoi i bwrpas rhyw â phlentyn, ac yn llai tebygol am droseddau'n ymwneud â gweithgarwch rhywiol a thrais, fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Roedd ymchwiliadau i droseddau rhywiol yn cymryd cryn amser: roedd yr amser canolrifol rhwng cofnodi trosedd rhywiol a chwblhau'r ymchwiliad gyda chanlyniad yn 62 diwrnod, a 261 diwrnod – bron i bedair gwaith yn hwy – pan oedd y canlyniad yn gyhuddiad neu wŷs. Yn achos troseddau o drais, roedd hyd canolrifol ymchwiliad a oedd yn arwain at gyhuddiad neu wŷs yn 467 diwrnod – ymhell dros flwyddyn.

Achosion llys yn 2021

Yn y flwyddyn hyd Ragfyr 2021, dygwyd achosion llys yn erbyn 7,389 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant yn rhywiol, 6% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Bu 6,134 o euogfarnau, a arweiniodd at 'gyfradd euogfarnu' o 83% - yr uchaf ers 2018, ac mae'n debyg y gellir priodoli hynny'n rhannol o leiaf i gynnydd mewn erlyniadau am droseddau delweddau cam-drin yn rhywiol (sy'n fwy tebygol o arwain at euogfarn na throseddau cyswllt).

Cafodd dau o bob pump o'r diffynyddion a gafwyd yn euog ddedfryd o garchar ar unwaith, a chafodd mwy na thraean ddedfrydau wedi'u gohirio. Roedd troseddau o garchar ar unwaith yn llai tebygol am droseddau delweddau rhywiol a pharatoi i bwrpas rhyw, ac i droseddwy'r o dan 18 oed.

Roedd y rhan fwyaf o ddiffynyddion yn ddynion (98%), fel yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd bron i naw o bob 10 (89%) yn Wyn, o'i gymharu ag 82% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr. Gall hyn fod o ganlyniad i dan-gofnodi cam-drin plant yn rhywiol mewn cymunedau lleiafrif ethnig, a'r ffaith bod diffynyddion Prydeinig Gwyn yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp ethnig arall o gael eu herlyn am droseddau gyda mwy o debygrwydd o erlyniad.

Ar gyfartaledd, yn 2021, cymerodd troseddau rhywiol yn erbyn plant (ac eithrio troseddau delweddau) ychydig llai na blwyddyn – 353 diwrnod – i fynd o gyhuddo'r troseddwr i gwblhau'r achos yn Llys y Goron. Mae hyn 100 niwrnod yn hwy nag yn y flwyddyn flaenorol, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi priodoli'r cynnydd i'r ôl-groniad a achoswyd gan y pandemig COVID-19. Cymerodd troseddau delweddau o gam-drin plant yn rhywiol hanner yr amser (175 diwrnod), ac ni fu dim newid o'i gymharu â 2020.

Drwy gyfuno data'r heddlu a'r erlyniad ar amserlenni gwelir, yn achos llawer o droseddau cam-drin plant yn rhywiol, fod cyfnod o aros o bron i ddwy flynedd gan amlaf rhwng rhoi gwybod i'r heddlu am y cam-drin a'r achos yn dod i ben yn y llys – ac roedd troseddau trais wedi cymryd cryn dipyn yn hwy.

Plant sy'n mynychu canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn 2021/22

Roedd canolfannau atgyfeirio troseddau rhywiol (SARC) yn Lloegr wedi bod mewn cysylltiad cychwynnol ag 8,213 o blant yn ystod y flwyddyn, 13% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd dau draean o'r plant hyn rhwng 13 a 17 oed, ac roedd pump o bob chwech yn blant benywaidd. Roedd y mwyafrif llethol yn Brydeinig Gwyn; roedd plant Asiaidd yn cyfrif am y gyfran leiaf o blant a welwyd gan SARC o'i gymharu â'u cyfran o'r boblogaeth oedran ysgol yn Lloegr.

Er mai wyneb yn wyneb oedd y ffurf fwyaf cyffredin o gysylltiad SARC â phlant o hyd, roedd bron i hanner y cysylltiadau cyntaf – nifer sylweddol uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol – wedi digwydd o bell. Mae hyn yn awgrymu bod mesurau a gymerwyd yn ystod COVID-19 i oresgyn y cyfyngiadau ar gyswllt wyneb yn wyneb wedi'u cadw ar ôl y pandemig. Roedd cyrhaeddiad SARC i rai dan 18 oed yn amrywio'n fawr rhwng y saith rhanbarth iechyd, gyda Llundain a De Ddwyrain Lloegr â'r nifer lleiaf o gysylltiadau cyntaf o'i gymharu â phoblogaeth plant y rhanbarth, gyda Chanolbarth a De Ddwyrain Lloegr â'r niferoedd mwyaf.

Pwyslais ar wella data yn 2022

Yn ystod 2022, gwnaeth pedwar adolygiad pwysig argymhellion ar welliannau i gasglu, dadansoddi a defnyddio data i wella gallu gwasanaethau i wneud penderfyniadau, sy'n berthnasol i ymateb asiantaethau i gam-drin plant yn rhywiol. Roedd dau'n rhoi pwyslais ar welliannau sydd eu hangen mewn gofal cymdeithasol plant: adroddiad terfynol yr adolygiad annibynnol i ofal cymdeithasol plant a'r adolygiad cenedlaethol i farwolaethau Arthur Labinjo Hughes a Star Hobson. Roedd un yn canolbwyntio ar ymateb yr heddlu i droseddau rhywiol: adroddiad interim Operation Soteria Bluestone, a sefydlwyd i ymateb i ganfyddiadau adolygiad o'r dechrau i ddiwedd y broses ar gyfer trais Llywodraeth yn DU. Roedd y pedwerydd yn edrych ar ddata ar gam-drin plant yn rhywiol rhwng asiantaethau: adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Nodwn fod cydgyffwrdd sylweddol yn nadansoddiad yr adroddiadau hyn o faterion allweddol a'r datrysiadau arfaethedig i wella data asiantaethau. Maent i gyd yn cynnwys cynigion i wella ansawdd a chysondeb data a gesglir gan wahanol asiantaethau ac i wneud defnydd gwell ohonynt mewn prosesau penderfynu gweithredol a strategol. Mae tri'n rhoi pwyslais ar yr angen i newid systemau data a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol. Gallai gwaith blaenorol Canolfan CPRh wrth ddatblygu a threialu 'set ddata graidd' a argymhellir (gweler www.csacentre.org.uk/our-research/the-scale-and-nature-of-csa-improving-agency-records/) lywio sut mae'r argymhellion hyn yn cael eu symud ymlaen yn genedlaethol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol.



Roedd pedwar arolwg pwysig yn 2022 yn cynnwys cynigion i wella ansawdd a'r defnydd o ddata a gesglir gan wahanol asiantaethau.



Casgliadau

Yn 2021/22 gwelwyd cynnydd o 15% yn nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol a ganfuwyd gan yr heddlu a gwasanaethau plant, a bu cynnydd hefyd mewn atgyfeiriadau i SARCau. Mae'r cynnydd hwn yn nifer y pryderon am gam-drin plant yn rhywiol yn debygol o fod yn ganlyniad i gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys mwy o ymwybyddiaeth o bryderon yn dilyn ymgyrchoedd fel Everyone's Invited; mwy o bwyslais ar risg o niwed cudd yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19; a mwy o flaenoriaeth i weithredu ar y pryderon hyn wrth i blant ddod yn weladwy i wasanaethau eto yn dilyn y cyfyngiadau symud. Waeth beth yw'r cynnydd yn y niferoedd sy'n cael eu cofnodi, mae bwloch mawr o hyd rhwng yr amcangyfrifon o nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr a lefelau'r cofnodi ac ymateb a geir mewn data swyddogol.

Mae'n achos pryder bod y cynnydd yn nifer y troseddau cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd yn cyd-fynd â chynnydd sylweddol yn yr amser a gymerodd i ymchwiliadau ac erlyniadau gael eu prosesu yn y system cyfiawnder troseddol. Hefyd, roedd yr amrywiadau daearyddol mawr mewn cofnodi ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn parhau'n amlwg yn 2021/22. Mae angen brys i arweinyddion lleol a chenedlaethol roi sylw i'r materion hyn.

Yr adroddiad hwn yw'r chweched mewn cyfres o adroddiadau gan y Ganolfan CPRh sy'n adolygu'r tueddiadau blynyddol yn y data swyddogol sydd ar gael ar gam-drin plant yn rhywiol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyfyngiadau'r data sydd ar gael wedi parhau. Mae'r pedwar adolygiad pwysig i amddiffyn plant a chyflawnder troseddol yn 2022 wedi creu cyfle i gyflwyno gwelliannau traws-lywodraethol i ddata swyddogol ac i ymdrechu i wella ansawdd, cysondeb a chymharu data rhwng asiantaethau.



Bu cynnydd sylweddol yn yr amser a gymerir i ymchwiliadau/erlyniadau fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol.



Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn www.csacentre.org.uk/our-research/the-scale-and-nature-of-csa/trends-in-official-data/

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG

E: [info@csacentre](mailto:info@csacentre.org.uk) | [@csacentre](https://twitter.com/csacentre)

www.csacentre.org.uk

23933shc23